**Croeso**

Helo a chroeso i rifyn mis Chwefror o Newyddion y DBS.

Diolch i chi am yr adborth arbennig yr ydych wedi bod yn ei roi i ni ynglŷn â'r cylchlythyr hwn. Rydym yn defnyddio eich barn i'w fireinio, felly gallwn eich sicrhau fod yr amser y treuliwch yn rhoi adborth yn werth chweil. Rhowch wybod i ni beth ydych yn feddwl trwy anfon neges at communications@dbs.gsi.gov.uk

Efallai y byddwch wedi gweld sylw yn y wasg tua diwedd Ionawr am ddyfarniad gan y Llys Apêl ar ddatgelu euogfarnau. Yn y bôn mae hyn yn golygu fod y gyfraith sy'n gofyn i bobl ddatgelu pob euogfarn flaenorol i gyflogwyr penodol yn mynd yn groes i hawliau dynol.

Wrth fynd i'r wasg, roedd y Swyddfa Gartref yn ceisio caniatâd i apelio yn erbyn y penderfyniad. Felly nid oes unrhyw newid i fusnes na phrosesau'r DBS. Rydym wedi cyhoeddi gwybodaeth o'r gwrandawiad hwn ar www.homeoffice.gov.uk/dbs-news ac eisiau rhoi gwybod i chi am unrhyw ddatblygiadau.

Fodd bynnag, mae'r mater wedi amlygu mor gyflym y gall newid ddigwydd, ac wedi tynnu sylw at ddiffygion argraffiad ble mae'n rhaid i ni gytuno ar y testun i'w gynnwys dros bythefnos cyn i chi dderbyn y newyddion. Mae hyn yn bell o fod yn ddelfrydol ac rwy'n pryderu y byddwch yn derbyn gwybodaeth sydd wedi dyddio fel hyn, neu ddim o gwbl (yn ddibynnol ar fympwyon ein gwasanaeth post).

Mae miloedd ohonoch eisoes wedi troi at dderbyn ein fersiwn ar-lein am fod yn well gennych dderbyn a rhannu'n newyddion mewn copi electronig. Byddwn yn cyflwyno nodwedd 'newyddion sy'n torri' yn fuan hefyd, na fydd yn bosibl i ni ei ddyblygu mewn copi caled. Felly yn fuan iawn byddwn yn dechrau defnyddio Newyddion y DBS ar-lein yn unig. (Gweler tudalen tri am fanylion.) Os ydych chi'n teimlo y bydd hyn yn cyflwyno unrhyw broblemau i chi, rhowch wybod i ni yn y cyfeiriad adborth uchod.

Er gwaethaf miri'r Nadolig, yr eira a dyfarniadau'r llysoedd, mae'n dda gennyf weld i'r DBS gynnal ffocws cryf ar gyflawni yn ystod y dyddiau cynnar hyn yn ein sefydliad newydd, a gallaf ddweud wrthych ein bod wedi cynnal ein safonau gwasanaeth cyhoeddus. Gwyddom eich bod yn dibynnu arnom i weithio mewn modd amserol a chywir, a'n nod yw cadw pethau felly.

Gyda fy nymuniadau gorau

Adriènne Kelbie
Prif Weithredwr

**Newyddion y DBS i fod yn electronig yn unig**

Rhifyn mis nesaf o Newyddion y DBS fydd ein fersiwn olaf ar bapur. O fis Ebrill, byddwn yn ei gyhoeddi'n electronig.

Bydd hyn yn ein galluogi i anfon ein newyddion rheolaidd atoch ynghyd ag unrhyw 'newyddion sy'n torri', er mwyn i chi allu bod yn hyderus fod yr wybodaeth yr ydych yn ei defnyddio yn gywir ac i'r funud. Bydd hyn hefyd yn lleihau faint o bapur a anfonir allan gennym, ac felly'n llesol i'r amgylchedd.

Mae rhai ohonoch wedi gofyn a allem ystyried creu nifer o gyfrifon cyfryngau cymdeithasol megis Facebook i'ch hysbysu, a byddwn yn archwilio'r opsiynau hyn dros yr haf.

I dderbyn Newyddion y DBS o fis Ebrill, dylech dreulio rhai munudau nawr yn cofrestru:

- ewch i'n cronfa ddata electronig newydd yn www.homeoffice.gov.uk/dbs-subscribe
- rhowch eich enw, cyfeiriad e-bost, a'ch sector busnes; a
- ticiwch y blwch Newyddion DBS yn yr adran pynciau (ac unrhyw rai eraill sy'n mynd â'ch bryd, megis y Gwasanaeth Diweddaru).

A dyna ni – fyddwch chi fyth yn colli rhifyn arall na'n tybied pam ei fod wedi dyddio eto!

Cofiwch, o fis Ebrill ni fyddwn yn anfon copïau papur o Newyddion y DBS; dim ond fersiwn electronig. Os nad ydych wedi cofrestru ar y gronfa ddata cyn hynny, yna ni fyddwch yn derbyn copi papur.

**Ein digwyddiadau Atgyfeiriad**

Rydym yn darparu digwyddiadau gwybodaeth a hyfforddiant am ddim i'ch helpu i ddeall eich rhwymedigaethau a chyfrifoldebau cyfreithiol o ran atal, atgyfeiriadau a datgeliadau. Yn ogystal â'n digwyddiadau poblogaidd i Gydlofnodwyr, rydym yn datblygu rhaglen o sesiynau cyfeirio.

Bydd y rhain yn helpu cyflogwyr a rheolwyr gwirfoddol sy'n gweithio gyda grwpiau bregus, yn cynnwys plant, i ddeall eu dyletswydd gyfreithiol i wneud atgyfeiriadau cyfeirio atom.

Er mwyn eich atgoffa, fe ysgogir atgyfeiriad pan:

- mae aelod o staff wedi ei ddiswyddo neu symud i waith arall nad yw'n galw am gyswllt gyda grwpiau bregus, yn cynnwys plant; neu y gallent fod

wedi cael eu symud oni bai iddynt adael am fod yr unigolyn wedi anafu neu gyflwyno risg o niwed i grwpiau bregus yn cynnwys plant.

Disgwyliwn i'n digwyddiadau newydd gwmpasu:

- Ein rôl, grymoedd a'n swyddogaethau
- Yr effeithiau a ddaeth o ganlyniad i newidiadau deddfwriaethol diweddar (Deddf Diogelu Rhyddidau 2012)
- Trosolwg o Weithgaredd a Reoleiddir
- Dan ba amgylchiadau ddylech chi wneud atgyfeiriad, a phryd
- Pa wybodaeth ddylech chi gynnwys mewn atgyfeiriad
- Enghreifftiau o achosion

Os oes yna unrhyw beth arall yr hoffech i ni ei drafod, rhowch wybod i ni.

Am ragor o wybodaeth, gweler ein calendr digwyddiadau yn yr adran Newyddion a Digwyddiadau ar ein gwefan www.homeoffice.gov.uk/dbs neu ffoniwch Lyn Gavin neu Victoria Armstrong ar 01325 953714/15.

**Dyddiadau allweddol**

Chwefror 2013
Os ydych chi'n un o'n Cyrff Cofrestredig nad yw wedi gosod archeb am ffurflenni cais DBS eto, gwnewch hynny nawr. Os oes gennych ddigon o'r ffurflen brand Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), yna peidiwch ag archebu rhagor am y tro, ond daliwch i osod archebion yn ôl eich patrymau archebu arferol. Bydd hyn yn ein helpu i reoli'r niferoedd o archebion sy'n dod i mewn ac yn osgoi oedi i chi ble bynnag fo'n bosibl.

28 Chwefror 2013
28 Chwefror yw'r dyddiad olaf pan allwn ni dderbyn a phrosesu ceisiadau ar ffurflen brand y Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB).

Os byddwn yn derbyn eich ffurflenni brand Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) ar 1 Mawrth, dylech fod yn ymwybodol na fyddwn yn gallu eu prosesu yn gyfreithlon nac yn dechnegol. Mae'n ddrwg gennym am hyn, ond nid oes unrhyw fodd i ni ei osgoi, felly byddwn yn eu dychwelyd atoch. Yna bydd rhaid i chi ailgyflwyno'r ceisiadau yn defnyddio ffurflenni brand y DBS. Mae'n bosibl y bydd yn hwyr yn cyrraedd yn y post, felly rydym yn awgrymu eich bod yn defnyddio 21 Chwefror fel eich dyddiad postio olaf ar gyfer ffurflenni brand y Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB).

31 Mawrth 2013

Bydd yr holl gynnwys o wefan y Swyddfa Gartref yn cael ei drosglwyddo i'r wefan GOV.UK; gan gynnwys ein holl wybodaeth DBS a gedwir yno ar hyn o bryd.

Mae hyn yn digwydd am fod Swyddfa'r Cabinet wedi penderfynu y dylid symud holl gynnwys ar-lein y llywodraeth i un wefan unigol i helpu pawb i gael mynediad at wybodaeth a gwasanaethau'r llywodraeth yn haws. Fel rhan o'r teulu gwasanaeth cyhoeddus, rydym yn cadw at y strategaeth hon.

Byddwn yn rhoi gwybodaeth fanylach ynglŷn â'r newidiadau hyn i'r wefan mis nesaf.

**Paratoi ar gyfer y Gwasanaeth Diweddaru**

Mis diwethaf, fe roddom wybod i chi am y Gwasanaeth Diweddaru newydd a rhoi syniad i chi o beth allai'r ffi fod. Rydym wedi bod yn parhau i weithio'n agos gyda chydweithwyr yn y Swyddfa Gartref i baratoi ar gyfer y gwasanaeth newydd.

Fe wyddom fod rhai ohonoch yn teimlo'n rhwystredig nad ydym yn gallu dweud pryd fydd y gwasanaeth hwn yn lansio, ac fe ymddiheurwn am hyn. Mae nifer o ffactorau (sawl un yn allanol) yn dylanwadu ar ein gallu i lansio ac rydym yn adolygu'r rhain ar draws ein gweithrediad. Rydym eisiau gallu rhoi penderfyniad pendant i chi ac yn gweithio ar hynny; dylech deimlo'n sicr ein bod yn cydnabod eich bod angen cyfnod teg o rybudd i weithredu'r newidiadau ar draws eich rhwydweithiau.

Rydym yn paratoi i lansio a byddwn yn cynnwys nifer ohonoch yn ein cynllunio a phrofion. Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau fod y gwasanaeth yn edrych a theimlo'n dda i chi, a bod ein canllaw yn addas i chi.

Bydd hyn wir yn ein helpu i ddeall pa mor dda ydym wedi esbonio beth fydd y Gwasanaeth Diweddaru, pa mor debygol ydych chi i'w ddefnyddio ac a fyddwch yn annog ymgeiswyr i ymuno.

Bydd Ipsos MORI yn cyflawni ymchwil ar hyn ar ein rhan, felly os byddant yn cysylltu â chi, os gwelwch yn dda cymrwch ran os allwch chi sbario rhywfaint o amser.

Helpwch ni i gael y Gwasanaeth Diweddaru yn iawn:
Os bydd Ipsos MORI yn cysylltu â chi, rhowch wybod iddynt beth ydych chi eisiau! Cofrestrwch i fod y cyntaf i gael manylion y Gwasanaeth Diweddaru yn www.homeoffice.gov.uk/dbs-subscribe.

**Ceisiadau Gwirfoddolwyr**

Rydym yn cydnabod gwerth gwirfoddolwyr i nifer o sefydliadau ble mae diogelu yn ganolog. Rydym yn prosesu ceisiadau gwirfoddolwyr am ddatgeliad yn rhad

ac am ddim, ac wedi ymroi i wneud ein Gwasanaeth Diweddaru am ddim i wirfoddolwyr hefyd.

Mae 20%-25% o'r ceisiadau a dderbyniwn ar gyfer swyddi gwirfoddol, ac mae'r ffigwr hwn wedi parhau yn sefydlog blwyddyn ar flwyddyn.

Gan ein bod yn dal angen adfer ein costau, mae pawb sy'n talu am ddatgeliad felly'n rhoi cymhorthdal i'r gwiriadau am ddim. Felly rydym wir yn dibynnu arnoch chi i wneud penderfyniad gofalus wrth gyflwyno'r ffurflen gais ar ran gwirfoddolwr.

Mae gwirfoddolwr, yn ôl diffiniad y DBS, yn:

'Rhywun sy'n cymryd rhan mewn gweithgaredd sy'n golygu treulio amser yn ddi-dâl (ac eithrio ar gyfer teithio a mân dreuliau eraill) yn gwneud rhywbeth sydd o fudd i drydydd parti yn hytrach na neu yn ogystal â pherthynas agos.'

I fod yn gymwys am wiriad gwirfoddolwr rhad ac am ddim, dylech sicrhau nad yw'r ymgeisydd yn elwa'n uniongyrchol o'r swydd mae'r cais DBS yn cael ei gyflwyno ar ei gyfer. Ni ddylai'r ymgeisydd:

- dderbyn unrhyw daliad (ac eithrio ar gyfer teithio a mân dreuliau eraill a gymeradwyir);
- fod ar leoliad gwaith;
- fod ar gwrs sy'n gofyn iddynt wneud y swydd hon; ac/neu
- fod mewn swydd hyfforddai a fydd yn arwain at rôl llawn amser/cymhwyster.

Yn y flwyddyn ddiwethaf, canfu ein samplu fod 88% o geisiadau gwirfoddolwyr yn gywir. Ar gyfer y 12% o geisiadau a gyflwynwyd ar gam, rydym wedi cynnig adborth a chefnogaeth i helpu osgoi'r un broblem, ac wedi codi'r tâl priodol. Mae nifer ohonoch wedi dweud wrthym fod yr adborth hwn yn ddefnyddiol iawn – ac rydym yn ddiolchgar i chi am eich cefnogaeth.

Felly roedd yn siom fawr i ni ym mis Ionawr i orfod cymryd camau digynsail i ddiddymu Corff Cofrestredig am gyflwyno ceisiadau amhriodol ar gyfer gwirfoddolwyr gan wybod nad oeddynt yn briodol. Cyfeiriwyd ei Brif Lofnodwr at yr heddlu gennym hefyd. Ni fydd y DBS yn goddef camddefnydd o'n gwiriadau am ddim i wirfoddolwyr.

Fe wyddom, yn y bôn, mai eich cyfrifioldeb chi yw penderfynu a yw pob cais yn bodloni'r meini prawf ar gyfer gwiriad am ddim i wirfoddolwyr; ond byddwn yn gwneud ein gorau ar bob cyfle i'ch helpu i gael hynny'n iawn, felly os byddwch angen cyngor, does dim ond angen gofyn.

Ceir rhagor o wybodaeth gan gynnwys astudiaethau achos yn Newyddion y Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) Ionawr 2012, sydd ar gael ar ein gwefan yn: www.homeoffice.gov.uk/publications.

**Helpu lleihau gwallau Adran y**

Gwyddom ei bod yn anghyfleus ac yn cymryd amser i chi orfod delio â gwallau ar y ffurflen gais, felly pan fydd camgymeriadau'n codi, rydym yn dibynnu ar eich cymorth i atal eu hailadrodd.

Mae gwallau Adran y yn broblem sy'n codi'n arbennig o aml. Ers mis Chwefror y llynedd, o'r 379,500 o wallau a dderbyniom, mae 58,800 ohonynt yn ymwneud ag adran y.

Mae'n drueni gwirioneddol fod yr un gwallau hyn yn digwydd o hyd, gan ein bod yn gwybod sut mae ceisiadau gwallus yn gallu cael effaith ar eich prosesau recriwtio. Mae'r rhain yn sicr o arwain at oedi mewn amserau gweithdroad wrth i ni ddychwelyd y ffurflenni i chi, er mwyn i ni gadarnhau'r wybodaeth gywir.

Felly dyma ein tri awgrym uchaf ar wallau i osgoi hyn rhag digwydd:

Rhif Cydlofnodydd (adran y70)
Gallwn leihau'r nifer o'r mathau hyn o wallau os byddwch yn gwirio yn ofalus fod:

- Y maes hwn wedi ei gwblhau ac yn ddarllenadwy
- Eich bod yn llenwi eich rhif Cydlofnodydd gan gadw tu fewn i'r blychau, a sicrhau fod yr holl ddigidau yn gywir
- Fod chwe digid cyntaf eich rhif Cydlofnodydd yn cyd-fynd â'ch rhif Corff Cofrestredig (adran y69)

Datganiad gan Berson Cofrestredig (adran y72)
I allu prosesu'r ffurflen gais yn gywir, rhaid i chi wirio yn ofalus fod:

- Yr adran hon wedi ei llofnodi gennych chi ac nad yw'r llofnod yn mynd tu allan i'r blwch.

Mae'ch llofnod yma yn bwysig iawn gan eich bod yn llofnodi i gadarnhau fod yr wybodaeth a ddarparwyd gennych i gefnogi'r cais wedi ei gwblhau ac yn gywir.

Dyddiad Cydlofnodi (adran y73)

Gwiriwch yn ofalus fod:

- Y maes hwn wedi ei gwblhau ac yn ddarllenadwy

- Fod y dyddiad wedi ei gwblhau yn defnyddio’r fformat cywir o dd/mm/bbbb (dydd/mis/blwyddyn)